



Comisiwn Ffiniau i Gymru

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

Canllaw i'r Arolwg 2018

© Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd, sef www.comffin-cymru.gov.uk

		Para	Tud.
CYNNWYS			
PENNOD 1	CYFLWYNIAD		
	Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	1	1
	Diben y canllaw	6	1
	Manylion cyswllt	10	2
	Ffiniau etholiadol y DU nad yw'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt	12	2
PENNOD 2	PARATOI AR GYFER YR AROLWG		
	Y data sylfaen ar gyfer Arolwg 2018	1	4
	Dosbarthiad etholaethau	3	4
	Pennu polisi a gweithdrefn	4	4
PENNOD 3	DATBLYGU CYNIGION – GOFYNIION A PHOLISI		
	Amrediad etholiadol statudol	1	6
	Ffactorau statudol eraill	4	6
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	5	6
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	6	7
	Ffiniau etholaethau presennol	10	7
	Cydadwaith yr ystyriaethau	11	7
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried		
	Effaith canlyniadau etholiadau yn y dyfodol	14	8
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	15	8
	Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg	16	8
	Enwi a dynodi etholaethau	17	8
	Enwi	18	8
	Dynodi	23	9
	Yr iaith Gymraeg	25	10
	Effaith y ddeddfwriaeth	28	10

		Para	Tud.
CYNNWYS			
PENNOD 4	DATBLYGU CYNIGION – PROSES	1	11
	Cyhoeddi cynigion cychwynnol	4	11
	Cyfnod ymgynghori cychwynnol	9	12
	Sylwadau ysgrifenedig	12	12
	Gwrandawiadau cyhoeddus	13	12
	Cyfnod ymgynghori eilaidd	23	14
	Datblygu cynigion diwygiedig	26	14
	Pwysigrwydd cyfranogi	29	14
	Diogelu Data	32	15
	Argymhellion ac adroddiad terfynol	35	16
PENNOD 5	AR ÔL YR ADRODDIAD TERFYNOL		
	Gweithdrefn seneddol		17
PENNOD 6	CASGLIAD		18
ATODIAD A	Cyfansoddiad y Comisiwn		19
ATODIAD B	Cyfeiriadau a rhifau ffôn y Comisiynau eraill		20
ATODIAD C	Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi		23
ATODIAD CH	Geirfa a byrfoddau		28

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg
a Saesneg.

Pennod 1: Cyflwyniad

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') yn gorff cyhoeddus, anadrannol annibynnol a diduedd sy'n gyfrifol am arolygu ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru. Caiff aelodau'r Comisiwn a swyddi allweddol eraill eu disgrifio yn Atodiad A.
2. Mae gan y Comisiwn y dasg o arolygu'r holl etholaethau Seneddol yng Nghymru o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd, mae'n cynnal arolwg ar sail rheolau newydd a bennwyd gan y Senedd. Mae'r rheolau newydd yn golygu lleihad sylweddol yn nifer yr etholaethau yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i etholaethau gydymffurfio â pharamedrau newydd o ran nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Caiff y broses arolygu ei llywio'n drwm gan ymgynghori cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau ledled Cymru. Yna, caiff sylwadau gan y cyhoedd ynghylch y cynigion hyn eu derbyn yn ysgrifenedig ac mewn gwrandawiriadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn sgil yr holl farnau sy'n cael eu mynegi ynghylch y cynigion cychwynnol, gallai'r Comisiwn eu diwygio ac yna cynnal cylch pellach o ymgynghori ysgrifenedig ar y cynigion diwygiedig.
4. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Llywodraeth erbyn 1 Hydref 2018, yn argymhell unrhyw newidiadau y mae'n credu eu bod yn briodol i ddsbarthiad, maint, ffurf, enw neu ddynodiad etholaethau yng Nghymru. Felly, trwy gydol y canllaw hwn, cyfeirir at yr arolwg fel 'Arolwg 2018'.
5. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Bil ac, os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth, caiff y newidiadau argymelledig eu rhoi ar waith ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf ar ôl dyddiad pasio'r ddeddfwriaeth.

Diben y canllaw

6. Mae'r Comisiwn wedi llunio'r canllaw hwn i helpu i esbonio sut bydd y broses ar gyfer Arolwg 2018 yn gweithio. Mae'r canllaw yn cwmpasu'r hyn y mae'r gyfraith yn dweud y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud fel rhan o'r broses, a materion lle mae'r Comisiwn wedi penderfynu – fel mater o bolisi yn ôl ei ddoethineb ei hun – i ddefnyddio dull penodol.
7. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu datganiad manwl a thechnegol o'r fframwaith statudol, proses yr arolwg a pholisïau'r Comisiwn o ran datblygu cynigion ar argymhellion terfynol.
8. Mae'r Comisiwn yn gobeithio, trwy egluro'r broses a'r polisïau fel hyn, y bydd y canllaw yn annog y rheiny a all fod yn ystyried mynegi eu barn ac yn helpu i sicrhau y gall y rheiny sy'n mynegi eu barn wneud hynny mewn modd gwybodus ac effeithiol. Felly, nod y canllaw yw:

- esbonio'n glir sut a pha bryd y gall y cyhoedd gyfrannu eu safbwyntiau, er mwyn llywio datblygu argymhellion terfynol y Comisiwn yn effeithiol; ac
 - esbonio'r newidiadau sylweddol diweddar a wnaed i'r gyfraith sy'n llywodraethu arolygon etholiadol Seneddol dan Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 ('Deddf 2011'). Caiff y gyfraith effaith fawr ar y ffordd y bydd yr arolwg yn gweithredu, ac – ar gyfer yr arolwg hwn sy'n cymhwyso'r rheolau – mae'r gyfraith yn debygol o arwain at o leiaf rywfaint o newid i'r holl etholaethau presennol.
9. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw wedi ei fwriadu i fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith am yr arolwg ac aiddosbarthu etholaethau Seneddol. I weld datganiad diffiniol o'r gyfraith honno, cyfeiriwch at ddarpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992 a Deddf 2011) sydd ar gael yn www.legislation.gov.uk. Trwy gydol gweddill y canllaw hwn, cyfeirir at Ddeddf 1986 (fel y'i diwygiwyd) fel 'y Ddeddf' yn unig.

Manylion cyswllt

10. Gellir codi unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y canllaw hwn, neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt hyn:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Rhif ffôn: (029) 2046 4819
Rhif ffacs: (029) 2046 4823
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

11. Gallwch ddod o hyd i gylchlythyrau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, ac unrhyw wybodaeth arall am Arolwg 2018, ar wefan y Comisiwn.

Ffiniau etholiadol y DU nad yw'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt

12. Mae Comisiynau Ffiniau ar wahân ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, sy'n gyfrifol am gynnal arolygon o etholaethau Seneddol yn eu rhannau priodol o'r Deyrnas Unedig.
13. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw gyfrifoldeb am gynnal arolygon o ffiniau etholiadol llywodraeth leol nac arolygon strwythurol o lywodraeth leol. Yng Nghymru, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru sy'n gyfrifol am y cyfryw arolygon, tra bod cyrff tebyg yn cynnal arolygon llywodraeth leol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

14. Mae manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r cyrff hyn i'w gweld yn Atodiad B.

Pennod 2: Paratoi ar gyfer yr arolwg

Y data sylfaen ar gyfer Arolwg 2018

1. Mae'r Ddeddf yn amodi mae'r ffigurau etholwyr sydd i'w defnyddio ar gyfer arolwg yw'r rhai a oedd yn y fersiwn o'r gofrestr etholwyr a gyhoeddwyd ar 'ddyddiad yr arolwg'. Caiff dyddiad yr arolwg ei ddiffinio gan y Ddeddf fel y dyddiad ddwy flynedd a deg mis cyn ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar yr arolwg i'r Llywodraeth. Ar gyfer Arolwg 2018, mae hyn yn golygu bod rhaid defnyddio ffigurau'r etholwyr o'r cofrestri etholwyr yr oedd yn ofynnol eu cyhoeddi ar neu cyn 1 Rhagfyr 2015 (er y gallai fod oedi o ran cyhoeddi cofrestri mewn rhai amgylchiadau arbennig). Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi'r holl ddata sylfaen ar etholwyr ar gyfer Arolwg 2018 ar ei wefan - www.comffin-cymru.gov.uk.
2. Dywed y Ddeddf y gall y Comisiwn ystyried 'ffiniau llywodraeth leol' wrth ddatblygu ei gynigion. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r cyfryw ffiniau yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol, fel yr oeddent mewn grym ar y diwrnod cyffredin diweddaraf pan etholwyd cynghorwyr cyn dyddiad yr Arolwg. Ar gyfer Arolwg 2018, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rheiny a oedd mewn grym ar 7 Mai 2015. Mae'r ffiniau llywodraeth leol y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio ar gyfer Arolwg 2018 i'w gweld yng nghynnyrch mapio BoundaryLine yr Arolwg Ordnans (fersiwn Hydref 2015)¹. Mae'r mapiau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chynigion y Comisiwn (ar ffurf copi papur ac ar wefan y Comisiwn) yn dangos ffiniau llywodraeth leol perthnasol hefyd.

Dosbarthiad etholaethau

3. Erbyn hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod nifer benodedig o 600 o etholaethau ar gyfer y DU gyfan.² Ar ôl datgan na ellir rhannu unrhyw un etholaeth rhwng rhannau gwahanol o'r DU,³ mae'r Ddeddf yn darparu fformiwla fathemategol⁴ ar gyfer pennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o bedair rhan y DU, ar sail ffigurau'r etholwyr ar ddyddiad yr arolwg. Mae 29 o etholaethau wedi eu dyrannu i Gymru ar gyfer Arolwg 2018.

Pennu polisi a gweithdrefn

4. Wrth ystyried y gweithdrefnau ar gyfer arolwg, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r prif randdeiliaid a'r pleidiau gwleidyddol Seneddol cymwys⁵ ar faterion polisi cyffredinol cyn yr arolwg, yn unol â'i arfer arferol. Mae cofnodion o'r cyfarfodydd hyn a gynhaliwyd â chynrychiolwyr y pleidiau hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

¹ Mae doler ar gael ar wefan y Comisiwn – www.comffin-cymru.gov.uk.

² Rheol 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

³ Rheol 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

⁴ Rheol 8 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

⁵ Adran 9 o Atodlen 2A i'r Ddeddf

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

5. Wrth lunio ei gynigion cychwynnol ar gyfer ardaloedd penodol, bydd y Comisiwn yn arfer ei farn ei hun ac ni fydd yn ymgynghori â'r pleidiau gwleidyddol Seneddol cymwys, awdurdodau lleol neu unrhyw grwpiau neu bobl eraill â buddiant. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai fwrw ati ei hun i baratoi ei gynigion o'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo. Felly, caiff y cynigion eu llunio gan y Comisiwn o safbwynt annibyniaeth a didueddrwydd, ac nid ydynt yn cael eu dylanwadu gan unrhyw safbwynt neu farn benodol. Wedi i'r cynigion gael eu cyhoeddi, mae'r gweithdrefnau statudol yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus lle gall pleidiau gwleidyddol a phobl eraill fynegi eu barn i'r Comisiwn ar y ffiniau arfaethedig.

Pennod 3: Datblygu cynigion – gofynion a pholisi

Amrediad etholwyr statudol

1. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl.⁶ Yr un fwyaf blaenllaw o'r rhain yw Rheol 2, sy'n amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodedig – bod rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr (ar ddyddiad yr arolwg) nad yw'n llai na 95% nac yn fwy na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2018, i'r rhif cyfan agosaf, yw 74,769.⁷
2. Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr ar ddyddiad yr arolwg **nad yw'n llai na 71,031 ac nad yw'n fwy na 78,507** (yr amrediad etholwyr statudol).
3. Yr unig etholaethau penodedig nad ydynt yn destun gweithredu cwota etholiadol y DU yw'r ddwy etholaeth ar Ynys Wyth yn Lloegr, ac Ynysoedd Erch ac Ynysoedd Shetland a Na f-Eileanan â'n lar yn yr Alban.

Ffactorau statudol eraill

4. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o etholaethau ar gyfer Arolwg 2018, yn benodol:
 - ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, ffurf, siâp a hygyrchedd etholaeth;
 - ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 7 Mai 2015 (gweler Pennod 2 paragraff 2 uchod);
 - ffiniau etholaethau presennol; ac,
 - unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu chwalu gan newidiadau i etholaethau.⁸

Ystyriaethau daearyddol arbennig

5. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a all effeithio ar y gallu i ffurfio etholaeth â nifer etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol, fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau posibl eraill ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â 'chysylltiadau lleol'.

⁶ Caiff Atodlen 2 i'r Ddeddf ei hamlinellu'n llawn yn Atodiad C.

⁷ Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, cwota etholiadol y DU yw: 44,562,440 (cyfanswm etholwyr y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

⁸ Mae ffactor arall – yr anghyfleusterau sydd ynghlwm wrth y cyfryw newidiadau' – wedi ei hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2018, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

6. Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol.
7. Er y bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n ymarferol, serch hynny, bydd yn aml yn angenrheidiol i groesi'r ffiniau hyn er mwyn ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
8. Mae'r Comisiwn yn defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
9. Mae'r Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi eu diffinio'n dda ac mae dealltwriaeth dda ohonynt, ac yn gyffredinol maent yn arwydd o ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd amgylchiadau pan fydd yn ddymunol gwneud hynny, yn enwedig wrth ystyried yr holl ffactorau a nodir yn Rheolau 2 i 5.

Ffiniau etholaethau presennol

10. Mae'r Comisiwn yn bwriadu rhoi ystyriaeth yn gyffredinol i etholaethau presennol, cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai etholaeth bresennol gael ei hystyried fel mater o drefn fel un sydd 'wedi ei diogelu rhag newid', ar y sail bod ei nifer etholwyr eisoes yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y gall etholaeth sydd ond fymryn y tu allan i'r amrediad statudol ddisgwyl gael ei newid fymryn yn unig, o angenrheidrwydd, er mwyn dod â hi o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, ynghyd â gofyniad yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid yr etholaeth bresennol y mae ei nifer etholwyr o fewn yr amrediad statudol, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol.

Cydadwaith yr ystyriaethau

11. Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Reol 2.
12. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni nifer etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ystyried ei bod yn briodol gosod amcan polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyro oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai'r fath amcan yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i ffactorau a restrir yn Rheol 5, yn unol â'r polisi ym mharagraff 11 uchod. Felly, i ddangos hynny, byddai'n well gan y Comisiwn nodi etholaeth ag amrywiant o 4%, er enghraifft, o gwota etholiadol y DU, ond un a oedd yn parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis amgen a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n rhannu ardaloedd cymunedol.

13. Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn yn ceisio creu etholaethau:

- o wardiau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
- o gymunedau cyfan; ac
- nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig' h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid mynd trwy etholaeth wahanol.

Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadol yn y dyfodol

14. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gadarn iawn nad yw ac na ddylai patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol fod yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

15. Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rhai a oedd yn bodoli ar 7 Mai 2015. O ganlyniad, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau newydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

16. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholwyr ar 'ddyddiad yr arolwg'. Ni all ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru y gellir eu honni mewn rhai ardaloedd.

Enwi a dynodi etholaethau

17. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

18. Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigyfnewid, dylid cadw enw presennol yr etholaeth, fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros eu newid.

19. Ar gyfer etholaeth newydd, dylai'r enw adlewyrchu enw'r prif gyngor neu'r prif gynghorau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth, fel arfer. Fodd bynnag, os oes unrhyw wrthwynebiad i'r enw arfaethedig a bod enw arall addas yn mynnu mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn fel arfer yn argymhell yr enw hwnnw.

20. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd sy'n cael ei ddefnyddio yn ffurfio rhagddodiad mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at ardal y prif gyngor neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Swansea West'.
21. Mae Adran 3(5A) Deddf 1986 yn gwneud amod i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor drafft ger bron y Senedd i roi argymhellion y Comisiwn ar waith, gan gynnwys argymhellion ynghylch enw'r etholaeth. Ar ben hynny, mae Adran 25(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn amodi lle mae Deddf Seneddol yn rhoi grym, y gellir ei arfer trwy offeryn statudol, i roi enw i unrhyw gorff, swyddfa neu le, y dylai'r grym hwnnw gynnwys y grym i roi enwau amgen yn Gymraeg a Saesneg. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn, os yw'n argymhell enw amgen ar gyfer etholaeth yn Gymraeg a Saesneg, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei rymuso i roi'r argymhelliad hwnnw ar waith wrth gyflwyno Gorchymyn yn y Cyfrif Gyngor drafft ger bron y Senedd.
22. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau amgen yn Gymraeg a Saesneg. Felly, bydd y Comisiwn yn argymhell y dylid darparu enwau amgen swyddogol yn Gymraeg ar gyfer enwau'r etholaethau hynny sy'n uniaith Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Fel hyn, byddai'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Yn adroddiadau cynigion ac argymhellion y Comisiwn, darperir enwau amgen yn Gymraeg lle mae prif enw'r etholaeth yn Saesneg, ac yn Saesneg lle mae prif enw'r etholaeth yn Gymraeg. Lle mae enw etholaeth yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft Llanelli, ni fydd unrhyw enw amgen.

Dynodi

23. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol' (*county constituency*) neu'n 'etholaeth fwrdeistrefol' (*borough constituency*). Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.
24. Yn gyffredinol, mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y caniateir i ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is o gynnal ymgyrch mewn ardal drefol, gywasgedig fel arfer.

Yr iaith Gymraeg

25. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.
26. Mae Adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, feddu ar gynllun iaith Gymraeg. Mae copi o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn i'w weld ar ei wefan ac ar gael ar gais.
27. Caiff cyfleusterau cyfieithu ar y pryd eu darparu mewn Gwrandawiadau Cyhoeddus (gweler Pennod 4).

Effaith y ddeddfwriaeth

28. Fel y gellir gweld o'r disgrifiad uchod, mae Deddf 2011 wedi creu newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff etholaethau seneddol yng Nghymru eu ffurfio. Bydd cwota etholiadol y DU yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael ei lleihau o 40 i 29, a rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o'r cwota etholiadol. Bydd y canlyniad yn golygu newid sylfaenol i batrwm presennol yr etholaethau ym mhob rhan o Gymru.
29. Hoffai'r Comisiwn ei gwneud yn glir o'r cychwyn cyntaf ei bod yn anochel, o gofio'r nifer gymharol fach o etholwyr mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, y bydd rhai etholaethau mawr yn ddaearyddol. Hefyd, yn sgil y niferoedd cyfyngedig o etholwyr mewn rhai o ardaloedd cymoedd de Cymru, bydd etholaethau'n cael eu ffurfio a fydd yn cwmpasu mwy nag un cwm. Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd ni fydd modd osgoi rhannu prif gynghorau. Bydd angen cyfaddawdu er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cydymffurfio â Rheolau'r ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed newidiadau bach i un etholaeth yn cael effaith ôl-ddilynol ar ardaloedd cyfagos, ac ar Gymru gyfan o bosibl.

Pennod 4: Datblygu cynigion – Y broses

1. Cafodd y Comisiwn ffigurau niferoedd yr etholwyr yn uniongyrchol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar ôl derbyn yr holl ffigurau, cytunodd y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol ar gwota etholiadol y DU a nifer yr etholaethau i'w dyrannu i bob rhan o'r DU (gweler Pennod 2 paragraff 3 ar gyfer dyraniad yr etholaethau, a Phennod 3 paragraff 2 ar yr amrediad etholwyr statudol, ar gyfer y ffigurau gwirioneddol y cytunwyd arnynt ar gyfer Arolwg 2018).
2. Mae natur orfodol Rheol 2 yn y ddeddfwriaeth - yn ymwneud â'r amrediad etholwyr statudol ar gyfer etholaethau - yn golygu y bydd yn angenrheidiol i etholaethau groesi nifer o ffiniau allanol prif gynghorau.
3. Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio un man cychwyn daearyddol a bennwyd ymlaen llaw i ddatblygu cynigion. Caiff ystod eang o ddewisiadau eu hystyried. Dim ond ar ôl ystyried nifer o gynlluniau o etholaethau ar gyfer Cymru gyfan y bydd y Comisiwn yn llunio barn ac yn datblygu cynigion cychwynol.

Cyhoeddi cynigion cychwynol

4. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei gynigion cychwynol, bydd yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan, ynghyd â gwybodaeth fanwl am sut a pha bryd y gellir cyflwyno barnau ar y cynigion hynny. Ar yr un pryd, bydd yn anfon copiâu papur o'r cynigion i 'fannau adneuo' amrywiol yn lleol, lle gall y cyhoedd weld y cynigion.
5. Swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol fydd y manau adneuo lle gall y cyhoedd archwilio'r cynigion, fel arfer, er y gellir defnyddio manau eraill fel llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig yn yr ardaloedd lle ceir etholaethau mawr yn ddaearyddol. Caiff rhestr lawn o fannau adneuo ei chyhoeddi ar wefan y Comisiwn ar yr un pryd â'r cynigion.
6. Yn ogystal â'r cynigion cychwynol a'i adroddiad ar y cynigion hynny, er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y cynigion yn well, bydd y Comisiwn yn trefnu i roi ar adnau, ac yn rhoi ar ei wefan, fapiau manwl sy'n dangos, ymysg gwybodaeth arall, enw, dynodiad a ffin pob etholaeth arfaethedig.
7. Er mwyn hysbysebu'r cynigion cychwynol, bydd y Comisiwn yn dechrau ymgyrch hysbysebu sy'n canolbwyntio ar dynnu sylw'r cyhoedd at y cynigion, hyd yr ymgynghoriad a'r gwrandawiadau cyhoeddus (gweler paragraffau 12 i 22 isod). Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon copiâu o'i gynigion at yr holl bartion â buddiant (er enghraifft, prif gynghorau ac Aelodau Seneddol). Bydd prif gynghorau a llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd yn cael copiâu o'r mapiau manwl. Cyn i'r wybodaeth gael ei hanfon, bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ynghylch y cynigion cychwynol, y cyfnod ar gyfer derbyn sylwadau, a gweithdrefnau dilynol arolwg.

8. Caiff copïau o'r cynigion cychwynnol, adroddiadau a mapiau cysylltiedig, a'r holl gylchlythyrau a datganiadau i'r wasg a gyhoeddir gan y Comisiwn, eu rhoi ar ei wefan – www.comffin-cymru.gov.uk.

Cyfnod ymgynghori cychwynnol

9. Mae Arolwg 2018 yn cael ei gynnal o dan weithdrefn sy'n dibynnu ar gyfuniad o sylwadau ysgrifenedig a sylwadau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Diddymwyd yr hen ddull o gynnal ymchwiliadau cyhoeddus a'i ddisodli gan wrandawiadau cyhoeddus byrrach. Nid ymchwiliadau, cyfarfodydd cyhoeddus na dadleuon yw'r gwrandawiadau hyn, ond maent yno i gynnig cyfle i'r Comisiwn esbonio ei gynigion cychwynnol ac i'r cyhoedd roi ei farn ar y cynigion hyn.
10. Mae'r Comisiwn yn rhoi llawn gymaint o bwys ar sylwadau a wneir yn ysgrifenedig â'r rheiny a wneir ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae angen rheoli'n ofalus y modd caiff y gwrandawiadau eu cynnal, oherwydd y cânt eu cyfyngu'n llym gan statud i bara dim mwy na deuddydd yr un. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl i rywun gwblhau cyflwyniadau llafar cyn pen yr amser a ganiateir, gellir gwneud sylwadau o hyd yn ysgrifenedig cyn pen y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos.
11. Gofynnir i'r rhai sy'n rhoi eu barn – p'un a yw hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig – ddweud a ydynt yn cymeradwyo cynigion y Comisiwn neu'n eu gwrthwynebu. Yn benodol, caiff gwrthwynebwyr eu cynghori i ddweud beth maent yn ei gynnig yn lle cynigion y Comisiwn. Mae gwrthwynebiad sydd â gwrthgynnig ymarfer i gyd-fynd ag ef yn debygol o gael mwy o ystyriaeth na datganiad syml o wrthwynebiad. Yn hyn o beth – ac yn enwedig yng ngoleuni pwysigrwydd Rheol 2 (amrediad etholwyr statudol) – bydd gwrthgynnig sy'n amlinellu cyfansoddiad pob etholaeth mewn ardal yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel un sy'n fwy darbwyllog na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig, nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau canlyniadol ar ffigurau etholwyr etholaethau eraill.

Sylwadau ysgrifenedig

12. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a wneir iddo o fewn cyfnod statudol o 12 wythnos, yn dechrau gyda chyhoeddi'r cynigion cychwynnol. Bydd manylion am sut i wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain. Mae'n hanfodol y caiff sylwadau eu cyflwyno mewn da bryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu derbyn cyn pen y cyfnod ymgynghori dynodedig. **Ni fydd sylwadau sy'n cael eu derbyn cyn neu ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu hystyried.**

Gwrandawiadau cyhoeddus

13. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal o leiaf dau a dim mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â chynigion i Gymru, a rhyngddynt byddant yn cwmpasu Cymru gyfan.

14. Caiff manylion am leoliadau a dyddiadau'r gwrandawiadau eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn maes o law, a'u cyhoeddi eto ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain.
15. Bwriad gwrandawriad cyhoeddus yw rhoi cyfle i bobl wneud sylwadau ynghylch unrhyw rai o gynigion cychwynnol y Comisiwn, gan gynnwys enwau etholaethau a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Yn wahanol i'r ymchwiliadau lleol yn y gorffennol, nid yw gwrandawiadau cyhoeddus o dan gynllun statudol 2011 wedi eu bwriadu i ganolbwyntio'n helaeth ar sylwadau ynghylch unrhyw wrthgynigion y gall pobl eraill eu cyflwyno, oherwydd y gellir gwneud hyn yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori (gweler paragraff 23 isod).
16. Mae'r sylwadau ym mhob gwrandawriad cyhoeddus yn debygol o ganolbwyntio ar gynigion ar gyfer yr ardal agosaf at y gwrandawriad, ond nid yw hyn yn golygu na ellir gwneud sylwadau sy'n ymwneud ag unrhyw ran o Gymru.
17. Caiff pob gwrandawriad ei gadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol annibynnol sy'n cael ei (d)dethol gan y Comisiwn, sy'n rheoli'r trefniadau ac a all gofyn cwestiynau – neu ganiatáu i rywun arall ofyn cwestiynau – i unigolyn sy'n rhoi sylwadau. Yn gyffredinol, dylid gofyn cwestiynau trwy'r Cadeirydd, a dylai fel arfer ofyn am esboniad yn hytrach na 'chroesholi'r siaradwr ar ei farnau/barnau.
18. Wedi i'r manylion am ddyddiadau a lleoliadau'r gwrandawiadau cyhoeddus gael eu cyhoeddi, caiff unigolion sy'n dymuno gwneud cyflwyniad llafar mewn un o'r gwrandawiadau eu hannog i roi gwybod i'r Comisiwn ymlaen llaw. Caiff manylion am sut i wneud cais am slot siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol. Bydd y Comisiwn yn ymdrechu i fodloni ceisiadau unigol am amser neu ddyddiad penodol, ond ni all fod yn sicr y bydd hynny'n bosibl.
19. Gallai hyd y slotiau siarad fod yn gyfyngedig, felly bydd angen i sylwadau fod yn glir, yn gryno ac yn ffocysedig. Hefyd, bydd angen i'r rhai sy'n bwriadu siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus fod yn rhesymol o hyblyg ynghylch pryd yn union y gofynnir iddynt ddechrau a gorffen eu sylwadau.
20. Y Comisiynydd Cynorthwyol sy'n cadeirio'r gwrandawriad cyhoeddus fydd yn penderfynu pryd i alw ar siaradwyr a faint o amser i'w neilltuo i bob un ohonynt. Er mwyn helpu'r Comisiynydd Cynorthwyol â'r dasg hon, byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu crynodeb neu amlinelliad o'r pwyntiau yr hoffai'r siaradwr eu gwneud ymlaen llaw.
21. Bydd angen i'r Comisiwn gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw gymhorthion gweledol a fydd yn cael eu defnyddio wrth wneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus, ac i'r cymhorthion gweledol hynny gael eu cyflenwi ymlaen llaw. Caiff manylion am y gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn y gwrandawiadau cyhoeddus eu cyhoeddi ymlaen llaw.
22. Caiff trawsgrifiad gair-am-air ei wneud o'r holl wrandawiadau cyhoeddus. Caiff y trawsgrifiadau eu cyhoeddi ynghyd â sylwadau eraill ar wefan y Comisiwn.

Cyfnod ymgynghori eilaidd

23. Cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymgynghoriad 12-wythnos cychwynnol ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau y mae wedi eu derbyn ar ei wefan (gan gynnwys trawsgrifiadau o'r gwrandawriadau cyhoeddus) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd copi papur yn cael ei roi ar adnau ar yr un pryd mewn o leiaf un lleoliad ym mhob etholaeth arfaethedig.
24. Ar ôl cyhoeddi'r sylwadau, mae cyfnod statudol pellach o bedair wythnos, pan gall pobl gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y sylwadau hynny a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, er enghraifft yn herio neu'n cefnogi honiadau a wnaed mewn sylwadau. Nid oes unrhyw wrandawriadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn.
25. Ar ôl eu cyfieithu, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori o bedair wythnos ar ei wefan.

Datblygu cynigion diwygiedig

26. Bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a gafwyd a'r sylwadau llafar a wnaed mewn gwrandawriadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ynghyd â'r holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd o bedair wythnos. Yna, bydd Comisiynydd Cynorthwyol 'arweiniol' enwebedig yn ysgrifennu adroddiad ar ran Comisiwn, yn crynhoi ac yn ystyried y sylwadau ac yn argymhell a ddylid adolygu'r cynigion yng ngoleuni'r sylwadau hynny – ac os dylid, sut. Yna, bydd y Comisiwn yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu p'un a ddylid diwygio ei gynigion cychwynnol, ac i ba raddau.
27. Os caiff y cynigion eu diwygio, bydd y Comisiwn yn mynd ati wedyn i gyhoeddi hysbysiad ac adroddiad cynigion diwygiedig, fel y gwnaeth ar gyfer y cynigion cychwynnol. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyfnod pellach o wyth wythnos ar gyfer gwneud sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y cynigion diwygiedig. Nid oes unrhyw wrandawriadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn; ni fydd y cyfnod o bedair wythnos ar gyfer cynnig sylwadau ar sylwadau pobl eraill yn cael ei ailadrodd ychwaith.
28. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos ar y cynigion diwygiedig ar yr un pryd â chyhoeddi'r Argymhellion Terfynol.

Pwysigrwydd cyfranogi

29. Hoffai'r Comisiwn annog pobl neu sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion ar gyfer eu hardal gyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i'r Comisiwn, boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynigion.

30. Un broblem benodol fydd cael yr ymatebion hyn ar yr amser cywir. Er enghraifft, gall pobl nad ydynt yn dangos eu cefnogaeth i'r cynigion cychwynnol weld bod y Comisiwn, yng ngoleuni sylwadau a gafwyd gan bobl eraill, yn cyhoeddi cynigion diwygiedig neu argymhellion terfynol nad ydynt yn eu cefnogi. Mae'n bwysig felly yn yr enghraifft hon y dylai pobl sy'n cefnogi'r cynigion cychwynnol ddweud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf.
31. Yn y pen draw, mae cyfranogi'n llawn ac yn amserol yn helpu'r Comisiwn i fesur barn leol ar ei gynigion yn fwy cywir ac, o ganlyniad, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ei argymhellion terfynol yn dderbyniol yn gyffredinol i fwyafrif y rhai y bydd yn rhaid iddynt fyw a gweithio gyda nhw.

Diogelu Data

32. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae'r Comisiwn yn dymuno cyhoeddi cymaint â phosibl o'r sylwadau a'r ohebiaeth arall y bydd yn ei derbyn. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu'r angen am dryloywder â gwarchod hawl unigolyn i breifatrwydd a'r gofynion statudol i'r Comisiwn warchod data personol unigolyn.
33. Felly, mae'r Comisiwn wedi creu polisi golygu y bydd yn ei gymhwyso i'r holl sylwadau y bydd yn eu derbyn ac yn eu rhoi yn y parth cyhoeddus. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Pobl / Swyddogion Cyhoeddus (h.y. ASau / ACau / Cynghorwyr – yn ysgrifennu mewn cymhwyster swyddogol):

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw, cyfeiriad a manylion cyswllt unrhyw unigolyn / swyddog cyhoeddus sy'n ysgrifennu mewn cymhwyster swyddogol.
- Fodd bynnag, caiff llofnodion eu golygu.

Aelodau'r cyhoedd a Phobl / Swyddogion Cyhoeddus sy'n ysgrifennu mewn cymhwyster personol:

- Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi enw pawb sy'n cyflwyno sylwadau, ond bydd yn golygu cyfeiriadau, ac eithrio'r lleoliad daearyddol h.y. y pentref, tref neu ddinas lle mae'r unigolyn hwnnw'n byw. Os bydd aelod o'r cyhoedd am i'w (h)enw gael ei olygu, bydd y Comisiwn yn gwneud hynny ar gais.
- Caiff pob cyfeiriad e-bost ei olygu.
- Caiff pob rhif ffôn ei olygu.
- Caiff pob llofnod ei olygu.

34. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn golygu unrhyw beth yn y sylwadau y mae o'r farn y gallai fod yn anghyfreithlon ac/neu yn enllibus.

Argymhellion ac adroddiad terfynol

35. Bydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r cynigion diwygiedig a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori o wyth wythnos, y cyfeirir ato ym mharagraff 28 uchod, a bydd yn gwneud ei benderfyniadau terfynol ynghylch p'un a oes angen gwneud addasiadau pellach yn sgil y sylwadau hynny ai peidio.
36. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei argymhellion terfynol ar gyfer Cymru, bydd yn mynd ati wedyn i ddrafftio a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig ffurfiol i'r Llywodraeth. Bydd yr adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi hefyd, yn cynnwys disgrifiad o'r arolwg, disgrifiad testunol o'r holl argymhellion terfynol, a set o fapiau i ddangos y ffiniau presennol a'r ffiniau sy'n cael eu cynnig gan yr argymhellion terfynol.
37. Bydd cyflwyno'r adroddiad terfynol ffurfiol yn dod â phroses yr arolwg i ben. Cyfrifoldeb Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig yw'r weithdrefn i roi'r etholaethau newydd ar waith.

Pennod 5: Ar ôl yr adroddiad terfynol

Gweithdrefn Seneddol

1. Ar ôl i'r Llywodraeth dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, rhaid iddo ei gyflwyno gerbron y Senedd.
2. Pan fydd adroddiad terfynol a gyflwynwyd gan unrhyw un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig yn argymhell newidiadau i etholaethau presennol, rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd hefyd, yn rhoi grym i'r argymhellion yn yr adroddiad(au). Wrth baratoi'r drafft hwnnw, ni all y Llywodraeth addasu argymhellion unrhyw un o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol, oni bai y gofynnwyd iddo wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig a chan nodi rhesymau) gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol perthnasol.
3. Rhaid i'r Gorchymyn drafft gael ei drafod a'i gymeradwyo (neu ei wrthod) gan ddau Dŷ'r Senedd. Os na chaiff y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor drafft ei gymeradwyo, gall y Llywodraeth ddiwygio'r drafft a chyflwyno drafft diwygiedig gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.
4. Wedi i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth ei gyflwyno iddo gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, daw'r etholaethau newydd i rym yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Rhaid i unrhyw isetholiadau a gynhelir yn y cyfamser gael eu cynnal ar sail yr hen etholaethau (presennol). Ni ellir codi amheuaeth ynghylch dilysrwydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar ôl ei wneud, mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Pennod 6: Casgliad

1. Gobeithir y bydd yr wybodaeth a'r esboniadau a roddir yn y llyfryn hwn yn cyflawni'r diben a nodwyd yn y Cyflwyniad, gan helpu i esbonio'r broses a'r polisiau ar gyfer partïon â buddiant, ac annog eu cyfranogiad gwybodus, ac felly helpu'r Comisiwn i gyflawni ei waith.

ATODIAD A

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986.

1. Cadeirydd

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau. Swydd *ex officio* yw hon ac, yn gyffredinol, nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran yng ngwaith gwirioneddol y Comisiwn.

2. Tri aelod arall

i.) Mae'r dirprwy gadeirydd, sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Comisiwn, yn farnwr yr Uchel Lys a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

ii.) Caiff dau aelod arall eu penodi ar y cyd gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae aelodaeth bresennol y Comisiwn i'w gweld ar ei wefan.

3. Dau asesydd (sydd ar gael i roi cyngor a chymorth technegol, yn ôl yr angen)

i.) Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr.

ii.) Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.

4. Ysgrifennydd

Caiff yr ysgrifennydd ei benodi/phenodi ar y cyd gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

5. Comisiynwyr Cynorthwyol

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Gall Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n cael eu penodi, er enghraifft, weithredu fel Cadeiryddion yn y gwrandawladau cyhoeddus. Fel arfer, bydd Comisiynydd Cynorthwyol yn unigolyn annibynnol â chymhwyster cyfreithiol.

ATODIAD B

CYFEIRIADAU A RHIFAU FFÔN Y COMISIYNAU ERAILL

Seneddol

The Boundary Commission for England

2nd Floor
35 Great Smith Street
London
SW1P 3BQ

Rhif ffôn: (020) 7276 1102
E-bost: information@boundarycommissionengland.gov.uk
Gwefan: <http://boundarycommissionforengland.independent.gov.uk>

The Boundary Commission for Scotland

Thistle House
91 Haymarket Terrace
Edinburgh
EH12 5HD

Rhif ffôn: (0131) 538 7510
Rhif ffacs: (0131) 538 7511
E-bost: bcs@scottishboundaries.gov.uk
Gwefan: www.bcomm-scotland.independent.gov.uk/

The Boundary Commission for Northern Ireland

The Bungalow
Stormont House
Stormont Estate
Belfast
BT4 3SH

Rhif ffôn: (028) 9052 7821
Rhif ffacs: (028) 9069 4801
E-bost: contact@boundarycommission.org.uk
Gwefan: www.boundarycommission.org.uk

Llywodraeth Leol

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Rhif ffôn: (029) 2046 4819
Rhif ffacs: (029) 2046 4823
E-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cffdl.llyw.cymru

Local Government Boundary Commission for England

14th Floor

Millbank Tower

Millbank

London

SW1P 4QP

Rhif ffôn: 0330 500 1525
Rhif ffacs: 0330 500 1526
E-bost: reviews@lgbce.org.uk
Gwefan: www.lgbce.org.uk

Local Government Boundary Commission for Scotland

Thistle House

91 Haymarket Terrace

Edinburgh

EH12 5HD

Rhif ffôn: (0131) 538 7510
Rhif ffacs: (0131) 538 7511
E-bost: lgbcscottishboundaries.gov.uk
Gwefan: www.lgbc-scotland.gov.uk

Local Government Boundaries Commissioner for Northern Ireland

Nid yw'n weithredol ar hyn o bryd.

Yr Ombwdsmon Seneddol

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Millbank Tower

Millbank

London

SW1P 4QP

Rhif ffôn: 0345 015 4033

E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

Gwefan: www.ombudsman.org.uk

ATODIAD C

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI

Nifer yr etholaethau

- 1 Nifer yr etholaethau yn y Deyrnas Unedig fydd 600.

Etholwyr fesul etholaeth

- 2 (1) Bydd nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth –
 - (a) ddim llai na 95% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a
 - (b) dim mwy na 105% o'r cwota hwnnw.
- (2) Mae'r rheol hon yn amodol ar reolau 4(2), 6(3) a 7.
- (3) Yn yr atodlen hon, ystyr "cwota etholiadol y Deyrnas unedig" yw –

U/596

Ile mae U yn sefyll am etholwyr y Deyrnas Unedig llai nifer yr etholwyr yn yr etholaethau a grybwyllir yn rheol 6.

Dyrannu etholaethau i rannau o'r Deyrnas Unedig

- 3 (1) Bydd pob etholaeth yn gyfan gwbl yn un o bedair rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).
- (2) Caiff nifer yr etholaethau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ei phennu yn unol â'r dull dyrannu sy'n cael ei amlinellu yn rheol 8.

Arwynebedd etholaethau

- 4 (1) Ni fydd gan etholaeth arwynebedd o fwy nag 13,000 cilometr sgwâr.
- (2) Nid oes rhaid i etholaeth gydymffurfio â rheol 2(1) (a) –
 - (a) os oes ganddi arwynebedd o fwy nag 12,000 cilometr sgwâr, ac

- (b) mae'r Comisiwn Ffiniau dan sylw yn fodlon nad yw'n rhesymol bosibl i'r etholaeth gydymffurfio â'r rheol honno.

Ffactorau

- 5 (1) Gall Comisiwn Ffiniau ystyried, os ac i'r graddau y gwêl orau –
- (a) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth;
 - (b) ffiniau llywodraeth leol fel y maent yn bodoli ar y diwrnod cyffredin ethol cynghorwyr diweddaraf cyn dyddiad yr arolwg;
 - (c) ffiniau etholaethau presennol;
 - (ch) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu chwalu gan newidiadau i etholaethau;
 - (d) yr anghyfleusterau sydd ynghlwm wrth y cyfryw newidiadau.⁹
- (2) Gall Comisiwn Ffiniau Lloegr ystyried, os ac i'r graddau y gwêl orau, ffiniau'r rhanbarthau etholiadol a bennir yn Atodlen 1 Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (gan anwybyddu paragraff 2(2) o'r Atodlen honno a'r cyfeiriadau at Gibraltar) fel y mae mewn grym ar ddiwrnod cyffredin ethol cynghorwyr diweddaraf cyn dyddiad yr arolwg.
- (3) Mae'r rheol hon mewn grym yn amodol ar reolau 2 a 4.

Etholaethau gwarchoddedig

- 6 (1) Bydd dwy etholaeth ar Ynys Wyth.
- (2) Bydd y canlynol yn parhau –
- (a) etholaeth o'r enw 'Orkney and Shetland', sy'n cynnwys ardaloedd Cyngor Ynysoedd Erch a Chyngor Ynysoedd Shetland;
 - (b) etholaeth o'r enw 'Na h-Eileanan â'n Iar', sy'n cynnwys ardal Comhairle nan Eilean Siar.
- (3) Nid yw Rheol 2 yn berthnasol i'r etholaethau hyn.

⁹ Nid yw Rheol 5(1)(e) yn berthnasol i adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno cyn 1 Hydref 2018, fel a bennir gan adran 11(2) Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 201, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013.

Gogledd Iwerddon

7 (1) Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, mae is-baragraff (2) isod yn berthnasol yn lle rheol 2 lle bo'r –

(a) gwahaniaeth rhwng –

(i) nifer yr etholwyr yng Ngogledd Iwerddon, a

(ii) chwota etholiadol y Deyrnas Unedig wedi'i luosi â nifer y seddi yng Ngogledd Iwerddon (a bennir o dan reol 8),

yn fwy na thraean o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, ac

(b) mae Comisiwn Ffiniau Gogledd Iwerddon o'r farn y byddai gorfod cymhwyso rheol 2 yn amharu'n afresymol ar –

(i) ei allu i ystyried y ffactorau a bennir yn rheol 5(1), neu

(ii) ei allu i gydymffurfio ag adran 3(2) y Ddeddf hon.

(2) Bydd nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth –

(a) ddim llai na ph'un bynnag yw'r lleiaf o –

N-A

a 95% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a

(b) dim mwy na ph'un bynnag yw'r mwyaf o –

N+A

a 105% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig,

lle mai –

N yw nifer yr etholwyr yng Ngogledd Iwerddon wedi ei rhannu â nifer y seddi yng Ngogledd Iwerddon (a bennir dan reol 8), ac A yw 5% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig.

Y dull dyrannu

8 (1) Mae'r dull dyrannu y cyfeirir ato yn rheol 3(2) fel a ganlyn.

- (2) Caiff yr etholaeth gyntaf ei dyrannu i'r rhan o'r Deyrnas Unedig sydd â'r nifer fwyaf o etholwyr.
- (3) Caiff yr ail etholaeth a'r etholaethau dilynol eu dyrannu yn yr un modd, ac eithrio bod etholaeth mewn rhan o'r Deyrnas Unedig y dyrannwyd un neu fwy o etholaethau iddi'n barod i'w rhannu â –

2C+1

Lle mai C yw nifer yr etholaethau a ddyrannwyd eisoes i'r rhan honno.

- (4) Lle mae'r ffigur a roddwyd gan is-baragraff (3) uchod yr un fath ar gyfer dwy neu fwy o rannau o'r Deyrnas Unedig, y rhan y caiff etholaeth ei dyrannu iddi fydd yr un sydd â'r nifer etholwyr lai neu'r nifer etholwyr wirioneddol leiaf.
- (5) Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i'r etholaethau a grybwyllir yn rheol 6, ac felly –
 - (a) caiff nifer etholwyr Lloegr ei thrin at ddibenion y rheol hon fel nifer sydd wedi'i lleihau gan nifer yr etholwyr yr etholaethau y sonnir amdanynt yn rheol 6(1);
 - (b) caiff nifer etholwyr yr Alban ei thrin at ddibenion y rheol hon fel nifer sydd wedi'i lleihau gan nifer yr etholwyr yr etholaethau y sonnir amdanynt yn rheol 6(2).

Dehongli

- 9 (1) Mae'r rheol hon mewn grym at ddibenion yr Atodlen hon.
- (2) "Etholwyr" y Deyrnas Unedig, neu ran o'r Deyrnas Unedig neu etholaeth, yw cyfanswm nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y fersiwn berthnasol o gofrestr etholwyr seneddol mewn perthynas â chyfeiriadau yn y Deyrnas Unedig, neu yn y rhan honno neu'r etholaeth honno.

At y diben hwn, y fersiwn berthnasol o gofrestr yw'r fersiwn sy'n ofynnol yn rhinwedd isadran (1) adran 13 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w chyhoeddi ddim hwyrach na dyddiad yr arolwg, neu a fyddai'n ofynnol oni bai am –

- (a) unrhyw bŵer o dan yr adran honno i bennu dyddiad diweddarach, neu
- (b) isadran (1A) yr adran honno.
- (3) "Ffiniau llywodraeth leol" yw –
 - (a) yn Lloegr, ffiniau siroedd a'u wardiau etholiadol, dosbarthiadau a'u wardiau, bwrdeistrefi Llundain a'u wardiau a Dinas Llundain,

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- (b) yng Nghymru, ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol,
 - (c) yn yr Alban, ffiniau ardaloedd llywodraeth leol a'r wardiau etholiadol y'u rhennir iddynt o dan adran 1 Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 2004, ac
- (ch) yng Ngogledd Iwerddon, ffiniau wardiau.
- (4) "Diwrnod cyffredin ethol cynghorwyr" yw –
- (a) mewn perthynas â Chymru a Lloegr, y diwrnod cyffredin ethol cynghorwyr ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol;
 - (b) mewn perthynas â'r Alban, y diwrnod y cynhelir y bleidlais mewn etholiadau cynghorwyr cyffredin ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol;
 - (c) mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, y diwrnod etholiad ar gyfer unrhyw gyngor dosbarth (ac eithrio etholiad i lenwi swydd wag achlysurol).
- (5) "Dyddiad yr arolwg", mewn perthynas ag adroddiad o dan adran 3(1) y Ddeddf hon y mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau (yn ôl adran 3(2)) ei gyflwyno cyn dyddiad penodol, yw dwy flynedd a deg mis cyn y dyddiad hwnnw.
- (6) Mae ystyr "cwota etholiadol y Deyrnas Unedig" wedi ei bennu gan reol 2(3).
- (7) Mae cyfeiriad yn rheol 6 at ardal, at yr ardal fel yr oedd yn bodoli pan ddaeth Rhan 2 o Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 i rym.

ATODIAD CH

GEIRFA A BYRFODDAU

Asesydd	Ymgynghorydd technegol wedi'i benodi'n statudol i'r Comisiwn, sydd naill ai'n Gofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr neu'n Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.
Comisiynydd Cynorthwyol	Unigolyn wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gais y Comisiwn i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau, sy'n unigolyn annibynnol â chymhwyster cyfreithiol, fel arfer.
Etholaeth Fwrdeistrefol - Talfyrrir i BC	Etholaeth seneddol sy'n cynnwys ardal drefol yn bennaf.
Cymuned (ardaloedd a wardiau)	Mae Cymru gyfan wedi ei rhannu'n ardaloedd cymunedol. Mae gan lawer o ardaloedd cymunedol gynghorau cymuned neu gyngor tref. Lle mae gan ardal gymunedol gyngor cymuned neu gyngor tref, yna gellir trefnu'r ardaloedd hyn yn wardiau at ddibenion etholiadol. Caiff wardiau etholiadol Cymru eu creu gan ddefnyddio'r ardaloedd (a'r wardiau) cymunedol hyn fel eu sylfeini.
Etholaeth Sirol - Talfyrrir i CC	Etholaeth seneddol sy'n cynnwys elfen wledig sylweddol.
Dynodiad	Dosbarthiad naill ai fel 'etholaeth fwrdeistrefol' (<i>borough constituency</i>) neu 'etholaeth sirol' (<i>county constituency</i>).
Cwota etholiadol	Nifer gyfartalog yr etholwyr mewn etholaeth a geir trwy rannu cyfanswm nifer yr etholwyr yn y Deyrnas Unedig â 596 (sef nifer yr etholaethau seneddol ar gyfer y Deyrnas Unedig llai'r rhai sydd ag eithriadau penodol).
Ward Etholiadol	Yr ardaloedd y caiff ardaloedd prif gynghorau eu rhannu iddynt at ddibenion ethol cynghorwyr; cyfeiriwyd atynt gynt fel adrannau etholiadol.
Etholaeth	Nifer yr etholwyr seneddol cofrestredig mewn ardal benodol.
Argymhellion terfynol	Yr argymhellion a gyflwynir mewn adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwedd arolwg. Gallant fod yn gynigion cychwynnol neu'n gynigion diwygiedig mewn unrhyw ardal benodol.

Arolwg cyffredinol	Prif arolwg ac aiddosbarthiad o etholaethau seneddol yng Nghymru bob 5 mlynedd. O 2011, mae'r holl arolygon o etholaethau seneddol yn arolygon cyffredinol.
Cyfnod ymgynghori cychwynnol	Cyfnod penodedig o 12 wythnos i'r Comisiwn dderbyn sylwadau ysgrifenedig. Caiff Gwrandawiadau Cyhoeddus eu cynnal yn ystod y cyfnod yn dechrau â phumed wythnos ac yn gorffen â degfed wythnos y cyfnod hwn.
Cynigion cychwynnol	Cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghori'n gyhoeddus arnynt.
Prif Gyngor	Elfen haen sengl llywodraeth leol sy'n gyfrifol am holl swyddogaethau llywodraeth leol, neu'r rhan fwyaf ohonynt, yn ei ardal, a ddisodlodd system dwy haen o gynghorau sir a chynghorau dosbarth yng Nghymru: Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol.
Gwrandawriad Cyhoeddus	Cyfle ffurfiol mewn ardal benodol i bobl wneud sylwadau ar lafar, wedi ei gadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol, fel arfer. Rhaid cynnal o leiaf dau a dim mwy na phum gwrandawriad cyhoeddus yng Nghymru, a rhaid cwblhau pob un ohonynt ymhen dau ddiwrnod.
Aiddosbarthu seddi	Rhannu ardal yn etholaethau seneddol newydd.
Sylwadau	Y sylwadau a roddir gan unigolyn, grŵp neu sefydliad i'r Comisiwn at ei gynigion cychwynnol neu ddiwygiedig, naill ai o'u plaid neu yn eu herbyn, gan gynnwys gwrthgynigion a deisebau.
Dyddiad yr Arolwg	Rhaid seilio cynigion ar nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholwyr ar y dyddiad hwn. Caiff ei ddiffinio yn y Ddeddf fel y dyddiad ddwy flynedd a deg mis cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol (h.y. 1 Rhagfyr 2015 ar gyfer yr arolwg a fydd yn dod i ben ag adroddiad terfynol erbyn 1 Hydref 2018).
Cynigion diwygiedig	Y cynigion cychwynnol fel y'i diwygiwyd.
Rheolau ar gyfer Aiddosbarthu Seddi	Y meini prawf statudol ar gyfer etholaethau seneddol o dan Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986.
Cyfnod ymgynghori eilaidd	Cyfnod penodedig o 4 wythnos i'r Comisiwn allu derbyn sylwadau ysgrifenedig. Mae'r cyfnod hwn yn dilyn cyhoeddi'r sylwadau a gafwyd a'r cofnod o'r Gwrandawiadau Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

(H) Hawlfraint y Goron 2016